

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes
# Swyddog Disgyblu a Chwynion

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio



# Croeso gan  Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, byddant yn dueddol o feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys, ac er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n mynd lawer ymhellach na'r delweddau traddodiadol hyn.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth o roliau gwahanol a heriol, ac mae'r gwaith pwysig a wneir y tu ôl i'r llenni'r un mor bwysig wrth helpu i wneud Gogledd Cymru'n le diogelach i fyw, gweithio ac i ymweld yno.

Mae ein sefydliad yn ymwneud â phobl, ac mae gan yr adran Adnoddau Dynol rôl allweddol i gefnogi'r Gwasanaeth i gyrraedd eu hamcanion o ddatblygu ein sefydliad a'i phobl. Mae'r tîm yn gyfrifol am reoli holl gylch cyfnod cyflogaeth y gweithiwr, o'r recriwtio a meithrin gweithwyr newydd at ddarparu arbenigedd, cefnogaeth a chyngor proffesiynol i reolwyr a gweithwyr fel ei gilydd am brosesau a strategaethau sy'n berthnasol i'n pobl.

Mae rôl Adnoddau Dynol mewn gwasanaeth brys rheng flaen yn un heriol, amrywiol a chyffrous ac mae'n ymwneud â nifer o gyfrifoldebau a thasgau amrywiol, i sicrhau fod y Gwasanaeth yn gallu parhau i amddiffyn y cymunedau a wasanaethir gennym.

Ydi hyn yn swnio'n gyffrous? Rydyn ni'n edrych am berson AD proffesiynol i ymuno â'n tîm ac i'n helpu i barhau i ddarparu ein prosesau pobl.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

**GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O**

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl


Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd at helpu i ddiogelu ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Fel Swyddog Disgyblaeth a Chwyno, byddwch yn rhan o'r Tîm Adnoddau Dynol prysur, gan ddarparu gwasanaeth effeithlon a chost-effeithiol.

Rydym am benodi Swyddog Disgyblaeth a Chwyno i ymuno â'r Uned Adnoddau Dynol a Chymorth Busnes ym Mhencadlys, Llanelwy am Gontract Cyfnod Penodol 6 mis (i'w adolygu), 22.2 awr (3 diwrnod) yr wythnos (gall yr oriau gynyddu - y llwyth gwaith yn caniatáu)

Drwy gynnal ymchwiliadau trylwyr, effeithlon a theg, byddwch yn gyfrifol am ddarparu adroddiadau manwl, diduedd i gefnogi penderfyniadau rheolwyr mewn perthynas â materion disgyblu a chŵynion.  Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth a data, cynnal cyfweliadau a chadw cofnodion cyfrinachol cywir. Byddwch yn gyfrifol am baratoi dogfennaeth ar gyfer gwrandawiadau mewnol ac allanol yn ôl yr angen, a'u cyflwyno yn y gwrandawiadau. Bydd y dyletswyddau gweinyddol cysylltiedig yn cynnwys drafftio llythyrau, paratoi datganiadau ac adroddiadau.

Byddwch yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau cyflwyno da, gyda phrofiad o gyfweld ac â'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, crynhoi manylion a chyflwyno adroddiadau ffurfiol.  Bydd gennych wybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer da a sgiliau trefnu rhagorol i reoli eich llwyth gwaith eich hun a chwrdd â therfynau amser. Bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i newid er mwyn delio â cheisiadau wrth iddyn nhw godi a bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol ac o'ch pen a'ch pastwn eich hun.

Mae'r Gwasanaeth yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Byddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau Cymraeg.



# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd 9


Cyflog: Cychwyn ar £40,221 i £43,421 y flwyddyn (pro rata)

## Oriau gwaith

Mae hwn yn gontract cyfnod penodol o 6 mis (i'w adolygu), 22.2 awr (3 diwrnod) yr wythnos (gall oriau gynyddu - y llwyth gwaith yn caniatáu). Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno polisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo hynny'n ymarferol. Efallai y bydd gofyn hefyd i fynychu safleoedd Gwasanaeth eraill i ymgymryd â materion sy'n ymwneud ag AD.

## Buddion cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 Pro rata diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Cynllun amser Fflecsi sy'n caniatau i staff weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasnaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i ampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Disgyblu a Chŵynion – contract cyfnod penodol o 6 mis (i'w adolygu) |
| **Adran** | Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes |
| **Yn atebol i** | Pennaeth/Dirprwy yr Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes |
| **Lleoliad** | Pencadlys / Gweithio Ystwyth |

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cynnal unrhyw waith canfod ffeithiau neu ymchwiliad yn ôl y gofyn, gan gynnwys ymchwiliadau disgyblu a chŵynion, neu ymchwilio i gŵynion yn erbyn unrhyw aelod o'r Gwasanaeth.

2. Casglu gwybodaeth a data o ffynonellau mewnol ac allanol i gefnogi ymchwiliadau.

3. Cynllunio, paratoi a chynnal cyfweliadau ymchwilio yn ôl yr angen a pharatoi datganiadau neu adroddiadau fel sy'n briodol yn unol ag arfer da.

4. Sicrhau bod yr holl wybodaeth a gesglir i gefnogi ymchwiliad yn cael ei defnyddio'n deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw, yn unol â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Deddf Diogelu Data 2018 gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

5. Cysylltu â Chynrychiolwyr Undebau yn ôl yr angen.

6. Cynorthwyo i baratoi dogfennaeth ar gyfer cyfarfodydd/gwrandawiadau gyda'r holl bartïon cysylltiedig ar gyfer gwrandawiadau mewnol/allanol yn ôl yr angen.

7. Trefnu cynnal gwrandawiadau mewnol a chyflwyno ynddynt yn ôl yr angen.

8. Mynychu cyfarfodydd/gwrandawiadau allanol os oes angen.

9. Ymgymryd â'r holl weinyddiaeth o ran disgyblu a chŵynion.

10. Cynnal cyfarfodydd datrys fel rhan o achosion cwyno fel y bo'n briodol.

11. Cynorthwyo i adolygu a gweithredu unrhyw bolisïau a gweithdrefnau disgyblu a chwyno.

12. Cynorthwyo Pennaeth/Dirprwy Bennaeth yr Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes wrth baratoi ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth.

13. Cynnal cofnodion yn ddiogel yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth e.e. taenlenni ymchwiliadau, System Gwybodaeth Reoli Adnoddau Dynol.

14. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu harchifo a'u dinistrio'n ddiogel yn unol â chyfnodau cadw.

15. Monitro cwynion a lefelau gweithgarwch o fewn y Gwasanaeth ar gyfer disgyblu/cwynion a chadw'r holl wybodaeth ystadegol briodol arall.

16. Darparu adroddiadau rheoli ar ddata/tueddiadau disgyblu a chwyno yn ôl yr angen.

17. Cynorthwyo i baratoi adroddiadau ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub a phwyllgorau eraill yn ôl yr angen.

18. Cynrychioli'r Gwasanaeth mewn cysylltiad â materion Datrys a Disgyblu mewn gwahanol bwyllgorau, grwpiau, paneli, cyfarfodydd lle bo angen.

19. Cynnal cyfrinachedd llwyr ym mhob mater sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth.

20. Darparu hyfforddiant perthnasol i reolwyr llinell i'w harfogi â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i gefnogi gweithgareddau disgyblu a chwyno.

21. Bod yn gyfrifol am sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth cyflogaeth ac unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â darparu cyngor ac arweiniad i reolwyr ynghylch unrhyw ddiwygiadau neu ddatblygiad ym Mholisïau'r Gwasanaeth.

22. Cynorthwyo a sicrhau bod gweithdrefnau atal yn cael eu dilyn a'u hadolygu fel y bo'n briodol.

23. Cynorthwyo Pennaeth/Dirprwy yr Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes ac arwain ar brosiectau lle y bo'n briodol.

24. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r swydd o bryd i'w gilydd.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Dim

## Cyfrifoldeb Ariannol

Dim

## Cyswllt y tu allan i'ch adran

- Cydweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Tân ac Achub y DU
- ACAS a chyrff perthnasol eraill
- Aelodau'r cyhoedd
- Cyrff Cynrychioladol
- Gwasanaethau brys eraill
- Awdurdodau Lleol

## Gofynion Ieithyddol

Lefel 2 – Mae'n ofynnol eich bod chi'n gallu

Deall hanfod sgyrsiau yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fydd iaith syml yn cael ei defnyddio.

## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Arbenig

Gwiriad DBS Arferol

## Hyfforddiant Gorfodol

Ymgymryd â'r holl hyfforddiant priodol fel y nodir gan Bennaeth/Dirprwy Bennaeth yr Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes.

## Arall

- Hyblygrwydd, er mwyn gweithio y tu allan i oriau swyddfa yn ôl yr angen.
- Wedi'i leoli yn y Pencadlys yn Llanelwy gyda'r gallu i ymgymryd â gweithio ystwyth.
- Yn barod i deithio i wahanol leoliadau GTAGC.
- Gwybodaeth amlinellol am y Telerau ac Amodau Gwasanaeth.
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth ynghylch Cyfraith Cyflogaeth.

# Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau, Gallu a Phrofiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Tystysgrif/Dyfarniad Proffesiynol Uwch mewn Ymarfer Ymchwiliol neu barodrwydd i weithio tuag at eu cwblhau. |
| | Gwybodaeth am gynnal ymchwiliadau, gan gynnwys disgyblu a chŵynion, a phrofiad o hynny. |
| | Profiad o baratoi adroddiadau a chyflwyno mewn lleoliad ffurfiol. |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth gyflwyno Hyfforddiant neu gymhwyster wrth roi cyngor ac arweiniad. |
| | Profiad o baratoi adroddiadau a chyflwyno mewn lleoliad ffurfiol. |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Sgiliau cyfweld a sgiliau rhyngbersonol rhagorol. |
| | Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth fanwl, crynhoi manylion a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig trylwyr a ffurfiol. |
| | Y gallu i ryngweithio'n effeithiol ag ystod eang o staff ar draws y sefydliad, ac ag asiantaethau allanol (e.e. ACAS) |
| | Meistrolaeth ardderchog o Saesneg ysgrifenedig a llafar. |
| | I gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol ac arfer da wrth gymhwyso disgyblaeth a gweithdrefnau cwyno |
| | Y gallu i yrru ac yn meddu ar drwydded yrru lawn gyfredol. |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Y gallu i ymgymryd â'r cyfrifoldeb gweinyddol sy'n ymwneud â'r broses ddisgyblu a chwyno ac i gynnal uniondeb yn y broses. |
| | Dull hyderus a phroffesiynol o gyflwyno i uwch reolwyr mewn lleoliadau ffurfiol a chyda'r gallu i aros, cyfansoddi, gwrthrychol a datgysylltiedig, gan gynnal dull proffesiynol bob amser. |
| | Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn rhugl (Lefel 4). |
| | Profiad o gadeirio cyfarfodydd a chasglu papurau ar gyfer cyfarfodydd ac ati. |

* Bydd angen gweld a gwirio tystiolaeth o gymwysterau cyn cadarnhau apwyntiad.

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Yn ddelfrydol, rydym yn edrych am rywun sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus a rhugl yn y Gymraeg, ond fe fyddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n ymroddedig i wella'u sgiliau Cymraeg.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r sgiliau gofynnol i gyfarfod â safon lefel 2 yn y Gymraeg. Rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y safon yma wrth gael eu hapwyntio gyfarfod â'r safon o fewn 12 mis.

| Maes Sgil | Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | ▪ Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>▪ Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>▪ Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>▪ Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | ▪ Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â'ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | ▪ Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â'ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |



# Sut i Wneud Cais

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Peidiwch â chyflwyno'ch CV gyda'ch Ffurflen Gais, gan mai dim ond yr wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei defnyddio ar y cam llunio rhestr fer.

Wrth gwblhau eich cais, ymgyfarwyddwch â'r disgrifiad swydd a manyleb y person yn y pecyn gwybodaeth hwn fel eich bod yn deall y cymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae p'un a fyddwch chi'n cael eich rhoi ar restr fer am gyfweliad ai peidio yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn gwneud cais, ffoniwch Llinos Gutierrez-Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol ac Uned Cefnogi Busnes ar 01745 535 276.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau** | **12:00 ar 07.05.24** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service